



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

David J Rowlands AC  
Cadeirydd, Y Pwyllgor Deisebau  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Eich cyf:  
Ein cyf: PO243/EJ/DT

9 Tachwedd 2017

Annwyl David

Diolch am eich llythyr ar 7 Awst 2017 lle gwnaethoch ofyn a fyddai'r Comisiwn yn archwilio opsiynau ar gyfer datblygu cynllun i wneud Iaith Arwyddion Prydain a/neu is-deitlo ar gael ar gyfer Cwestiynau eraill y Cynulliad (a ddarperir ar hyn o bryd ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog) a thrafodion o fewn amserlen addas.

Mewn cyfarfod diweddar, trafododd y Comisiynwyr y ddarpariaeth bresennol o wasanaethau Iaith Arwyddion Prydain ac is-deitlo, yn ogystal â chynlluniau cyfredol i ymestyn y gwasanaethau hyn o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael a'r cyfyngiadau technolegol wrth ddarparu is-deitlau cywir o drafodion byw.

Roeddwn yn meddwl y byddai o gymorth i'r Pwyllgor grynhoi'r hyn sydd eisoes yn cael ei ddarparu, pa newidiadau a gynllunnir, a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r gwaith hwn.

Yn gywir

Elin Jones AC  
Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA

Llywydd@cynulliad.cymru

www.cynulliad.cymru

0300 200 7403

**National Assembly for Wales**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA

Llywydd@assembly.wales

www.assembly.wales

0300 200 7403



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

## **Yr hyn rydym yn ei ddarparu ar hyn o bryd ac opsiynau**

### *Cofnod y Trafodion a thrawsgrifiadau'r pwyllgorau*

Mae trawsgrifiadau trafodion y Cyfarfod Llawn yn darparu adnodd hygyrch yr ydym yn ei gyhoeddi ar ffurf fersiwn ddrafft ar sail dreigl. Mae'n dechrau ymddangos tuag awr ar ôl dechrau'r Cyfarfod Llawn a chaiff ei ddiweddarau bob chwarter awr. Rydym yn cyhoeddi'r trawsgrifiadau hyn i ddechrau yn yr iaith a siaredir gyda thrawsgrifiad o'r cyfieithiad ar y pryd lle siaredir Cymraeg. Mae hefyd yn cynnwys lincs i dudalennau bywgraffiad yr Aelodau.

Cyhoeddir y Cofnod ei hun o fewn 24 awr ac mae'n cynnwys lincs i'r canlyniadau pleidleisio llawn a lincs manwl i senedd.tv. Cyhoeddir atebion i Gwestiynau Llafar nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn o fewn 24 awr. Cyhoeddir y fersiwn derfynol ddwyieithog, gyda phob cyfraniad yn y ddwy iaith, o fewn tri diwrnod gwaith.

Rydym yn sicrhau bod trawsgrifiadau o gyfarfodydd pwyllgorau ar gael ar ffurf ddrafft o fewn tri i bum diwrnod gwaith, ac mae fersiwn derfynol yn cael ei chyhoeddi o fewn 10 diwrnod gwaith, sy'n cynnwys y cyfieithiad o Gymraeg i Saesneg a ddarlledwyd yn ystod y cyfarfod.

### *Iaith Arwyddion Prydain*

Ym mis Ebrill 2016, yn dilyn penderfyniad S4C i gael gwared ar y rhaglen 'Y Dydd yn y Cynulliad' a oedd yn cynnwys dehongliad Iaith Arwyddion Prydain o Gwestiynau'r Prif Weinidog, cytunodd y Comisiwn, gan gydnabod yr angen, i gymryd y cyfrifoldeb dros weithredu a chyllido'r gwasanaeth hwn am gost o £15,000 y flwyddyn. Rydym yn darparu dehongliad Iaith Arwyddion Prydain ar gyfer pob sesiwn Cwestiynau'r Prif Weinidog; mae hyn yn dod i tua 5 y cant o gyfanswm busnes y Cynulliad, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Ofcom ar gyfer darlledwyr o 5 y cant o gyfanswm allbwn Iaith Arwyddion Prydain. Ar hyn o bryd, ni yw'r unig ddeddfwrfa yn y DU sy'n darparu'r gwasanaeth rheolaidd hwn. Rydym yn gwneud hyn drwy gofnodi Cwestiynau'r Prif Weinidog yn fyw ac yna rhoi amser i'r dehonglydd wyllo'r sesiwn cyn darparu'r dehongliad. Mae hyn wedi gwella cywirdeb ac ansawdd y gwasanaeth, y mae dehonglwyr a defnyddwyr wedi'i groesawu'n fawr. Mae'r sesiynau iaith arwyddion mewn man penodol ar senedd.tv (<http://www.senedd.tv/meeting/seneddexra>) ac ar ein sianel YouTube.



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Yn flaenorol, rydym wedi ymchwilio i ymestyn darpariaeth dehongliad Iaith Arwyddion Prydain - i gynnwys trafodion ehangach y Cyfarfod Llawn ac i bwyllgorau. Fodd bynnag, mae gan y dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain bryderon gwirioneddol ynghylch eu gallu i ddehongli trafodaethau byw yn gywir, o ystyried cyflymder a chymhlethdod y trafodion. Mae ein hiaith seneddol a thechnegol yn achosi mwy o broblemau iddynt - rydym yn defnyddio termau nad oes cyfwerth Iaith Arwyddion Prydain ar eu cyfer ac, unwaith eto, mae'r her o ran y Gymraeg - nid yw pob dehonglydd yn siarad Cymraeg. O ganlyniad i hyn, hyd yma nid yw'r dehonglwyr wedi cytuno i ddarparu gwasanaethau yn y meysydd hyn.

Rydym wedi ystyried ymestyn dehongliad Iaith Arwyddion Prydain i sesiynau Cwestiynau eraill y Gweinidog. Byddai hyn yn gofyn am fwy o ddehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain i gwmpasu'r oriau hwy (mae dehonglwyr yn gweithio am gyfnodau byr ar gylchdro) ac rydym yn amcangyfrif y byddai hyn yn ychwanegu hyd at £40,000 y flwyddyn at y gost bresennol, ac y byddai angen darparu cyllideb ychwanegol ar ei gyfer.

### *Is-deitlau*

Rydym wedi bod yn ystyried cyflwyno is-deitlo ers 2014. Fodd bynnag, mae'r dechnoleg yn heriol o ran cywirdeb a chadw is-deitlau wedi'u cydamseru gyda thrafodion, yn enwedig pan fo mwy nag un person yn siarad. Mae gennym hefyd her ychwanegol o drafodion dwyieithog ac nid yw'r dechnoleg sydd ar gael ar hyn o bryd yn cyfieithu'n ddigon cywir i fod yn ddibynadwy ac yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i wthio'r dechnoleg ac yn y misoedd nesaf byddwn yn gwerthuso trawsgrifiad byw o Ddatganiadau'r Gweinidogion a sesiwn llawn y Cyfarfod Llawn.

Rydym yn cyflwyno offer clipio a lawrlwytho ar gyfer senedd.tv a fydd yn ein galluogi i ddod o hyd i, dewis a thynnu darn o ffilm o gyfarfodydd. Yna byddem yn gallu is-deitlo'r clipiau llai hyn yn gywir, a'u cyhoeddi ar ein sianel YouTube.

### **Beth arall rydym yn bwriadu ei wneud?**

O fewn Senedd.tv rydym am roi rhestr chwarae benodol i fideos Iaith Arwyddion Prydain y mae'n hawdd dod o hyd iddi.



**Elin Jones AC, Llywydd**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Elin Jones AM, Presiding Officer**

National Assembly for Wales

Byddwn yn trydar pan fydd Cwestiynau'r Prif Weinidog ar gael yn Iaith Arwyddion Prydain ar YouTube.

Mae gennym nifer o fideos sy'n cynnwys iaith arwyddion y gellir eu hail-hyrwyddo'n rheolaidd, yn enwedig ar DyGynulliad.

Mae Allgymorth/Addysg yn gwneud llawer o waith allgymorth/addysg wedi'i deilwra mewn iaith Arwyddion Prydain - defnyddiwyd cynnwys fideo yn ddiweddar o sesiwn fel hyn i hyrwyddo ymgynghoriad Senedd Ieuentid. Cafodd ei dderbyn yn dda iawn a byddwn yn ymdrechu i wneud mwy o hyn.

### **Pethau eraill a wnawn i wneud gwahaniaeth**

Rydym yn ariannu dehongliad iaith Arwyddion Prydain ar gyfer y cyfarfodydd grŵp trawsbleidiol; pan fydd dadl yn ymwneud â materion byddar wedi'i drefnu, rydym yn sicrhau bod dehongliad ar gael; rydym wedi ariannu gwersi iaith Arwyddion Prydain ar gyfer staff y Cynulliad sy'n cwrdd â'r cyhoedd; ac mae dolenni clywed wedi'u gosod drwy'r adeilad, gan gynnwys ystafelloedd cyfarfod pwyllgorau ac orielau cyhoeddus.

Mae ein hymdrechion wedi'u cydnabod dro ar ôl tro gan yr elusen Action on Hearing Loss, sydd wedi achredu'r Cynulliad Cenedlaethol gyda'r Marc Siarter Yn Uwch na Geiriau, ac wedi ennill y categori Rhagoriaeth Gwasanaeth yng Ngwobrau Rhagoriaeth Action on Hearing Loss Cymru yn ddiweddar.